**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Busnes**

**6 Gorffennaf 2011**

# Amserlen ar gyfer ystyried y gyllideb ar gyfer 2012 – 2013

1. Ar 23 Mehefin 2011, rhoddodd Arweinydd y Tŷ wybod i'r Pwyllgor Busnes ar ba ddyddiad y bydd cyllideb ddrafft y Llywodraeth yn cael ei gosod gerbron y Cynulliad, ac ar ba ddyddiad y bydd y cynnig cyllideb blynyddol yn cael ei gyflwyno, yn unol â Rheol Sefydlog 20.2.

2. Yn unol â Rheol Sefydlog 20.4, mae'r Pwyllgor Busnes wedi ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid ac wedi llunio'r amserlen a ganlyn ar gyfer ystyried y gyllideb ar gyfer 2012 – 2013:

| | **Dyddiad** |
|---|---|
| **Cyllideb ddrafft y Llywodraeth yn cael ei gosod gerbron y Cynulliad** | 4 Hydref 2011 |
| **Y dyddiad cau i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad ar gyllideb ddrafft y Llywodraeth** | 8 Tachwedd 2011 |
| **Y cynnig cyllideb blynyddol yn cael ei gyflwyno** | 29 Tachwedd 2011 |